Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Ystumllwynarth**
**Newton Road**
**Y Mwmbwls**
**Abertawe**
**SA3 4BE**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Ystumllwynarth

Mae Ysgol Gynradd Ystumllwynarth yn y Mwmbwls yn awdurdod lleol Abertawe.

Ar hyn o bryd, mae 230 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng 3 ac 11 oed, gan gynnwys 31 o ddisgyblion meithrin sy'n mynychu'n rhan-amser. Mae wyth dosbarth. Y cyfartaledd treigl tair blynedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yw 5%, sydd ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 8% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Mae bron pob un o'r disgyblion o gefndir gwyn Prydeinig. Nid yw unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Penodwyd y pennaeth dros dro ym mis Medi 2018. Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o'r ysgol ym mis Rhagfyr 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau wrth iddynt symud trwy’r ysgol.  Maent yn ymroi yn dda mewn gwersi ac yn elwa ar addysgu sy’n eu hysgogi ac yn ennyn eu diddordeb yn dda.  Mae’r ysgol yn darparu lefel uchel o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer disgyblion.  Mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac maent yn mwynhau dod i’r ysgol.  Mae’r rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni’n dda.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at eu dysgu.  Mewn gwersi, mae’r rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio’n astud ac yn awyddus i wneud yn dda.  Maent yn datblygu eu medrau personol a chymdeithasol i safon uchel ac yn dangos parch a phryder am bobl eraill.

Mae gan y pennaeth dros dro weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, ac mewn cyfnod byr, mae hi wedi cyflwyno strategaethau priodol i wella darpariaeth.  Fodd bynnag, mae llawer o arweinwyr yn yr ysgol yn newydd i’w rolau, a megis dechrau datblygu y mae prosesau hunanwerthuso.  At ei gilydd, mae’n rhy gynnar i weld effaith lawn mentrau a strategaethau newydd.  Mae llywodraethwyr yn deall eu rôl ac yn cefnogi’r ysgol yn effeithiol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr holl arweinwyr a rheolwyr yn monitro, gwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn drylwyr yn eu meysydd cyfrifoldeb

A2 Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau Cymraeg y tu allan i wersi dynodedig, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2

A3 Sicrhau bod adborth athrawon ym mhob dosbarth yn galluogi disgyblion i ddeall yn glir yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith

A4 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol a gwneud dewisiadau o ran eu dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau uwchlaw'r rheiny sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae llawer o ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl, yn galw dysgu i gof yn dda ac yn cymhwyso eu medrau'n effeithiol i brofiadau a sefyllfaoedd newydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud, yn mynegi eu hunain yn glir ac yn defnyddio ystod eang o eirfa am eu hoedran. Yn y cyfnod sylfaen, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau siarad a gwrando. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn darparu esboniadau argyhoeddiadol mewn trafodaethau dosbarth ac mae disgyblion mwy abl yn cyfeirio at ddarnau amrywiol o dystiolaeth wrth lunio dadl. Mae disgyblion yn parhau i feithrin eu medrau cyfathrebu cryf, ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad yn hyderus ac yn glir. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac yn parchu safbwyntiau ei gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen cryf. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darllen ystod addas o destunau yn effeithiol. Defnyddiant strategaethau ffoneg i ddatgodio geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus. Mae llawer ohonynt yn trafod cynnwys eu llyfrau yn synhwyrol ac yn ymateb yn sensitif i deimladau eu hoff gymeriadau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn rhugl ac yn gywir. Maent yn mwynhau llyfrau ffuglen ac yn defnyddio'r rhyngrwyd yn bwrpasol i ymchwilio i destunau amrywiol, fel hanes cludiant trwy'r oesau. Mae llawer o ddisgyblion yn ffurfio cwestiynau treiddgar i holi ei gilydd am y llyfrau y maent yn eu darllen. Mae'r disgyblion mwy abl yn defnyddio technegau fel bwrw golwg a llithrddarllen yn llwyddiannus i ddod o hyd i atebion o destunau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda at amrywiaeth o ddibenion mewn gwersi Saesneg ac ar draws y cwricwlwm. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn trafod nodweddion *genres* penodol yn gywir ac yn eu defnyddio'n gymwys yn eu gwaith. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu cerddi ysgogol am 'wreichion yn yr awyr' ac yn creu dyddiaduron effeithiol. Mae disgyblion Blwyddyn 2 hefyd yn ysgrifennu adroddiadau difyr ar drychineb llongddrylliad SS Samtampa, a cholli'r bad achub lleol ym 1947. Mae safonau ysgrifennu erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 yn dda, ac mae disgyblion mwy abl yn creu darnau wedi'u strwythuro'n ofalus sy'n cynnwys cyfoeth o eirfa ddisgrifiadol. Mae disgyblion hŷn yn esbonio pam gwnaeth milwyr listio i frwydro dros eu gwlad yn y Rhyfel Byd Cyntaf, ac adroddiadau newyddion yn trafod trafferthion gweithwyr sy'n blant yn Cambodia.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn frwdfrydig i weithgareddau Cymraeg a chanu. Maent yn gofyn ac ateb cwestiynau syml amdanyn nhw eu hunain. Mae mwyafrif y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn mynegi eu hoffterau a'u casbethau, yn cyfrif yn effeithiol ac yn disgrifio patrymau tywydd yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid oes gan y rhan fwyaf ohonynt yr hyder i gynnal sgwrs sylfaenol yn Gymraeg, ac nid ydynt yn ymestyn eu hatebion trwy roi rheswm neu ychwanegu rhagor o fanylion. Ar draws yr ysgol, nid oes gan lawer o ddisgyblion hyder i siarad Cymraeg y tu allan i wersi Cymraeg dynodedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau mathemategol ar draws ystod eang o destunau, ac yn cymhwyso'r rhain yn bwrpasol mewn gweithgareddau sy'n briodol i oedran, sy'n eu hysgogi ac yn ennyn eu diddordeb. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni'n dda. Maent yn creu siapiau 3D o rwydi, yn datrys posau rhif gan ddefnyddio codau ac yn mesur yn gywir gan ddefnyddio centimetrau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gosod gwerth lle i fyny i 100 ac yn adnabod llinellau cymesuredd mewn siapiau awyren.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i wneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau mathemategol yng nghyfnod allweddol 2 ac yn eu cymhwyso'n bwrpasol mewn gweithgareddau difyr. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth 'Great British Bake Off', yn mesur cynhwysion yn ofalus, ac yn cymharu eu prisiau mewn gwahanol siopau. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn fathemategwyr hyderus. Maent yn deall ac yn cyfrifo canolrif, modd, cymedr ac amrediad set o ddata yn gywir, yn newid rhwng gwahanol unedau mesur metrig ac yn cyfrifo ffracsiynau niferoedd. Maent yn cymhwyso eu medrau'n rheolaidd mewn cyd-destunau pwrpasol. Er enghraifft, maent yn dehongli canrannau amrywiol sy'n ymwneud ag iechyd poblogaeth y byd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Yn y cyfnod sylfaen, gall y rhan fwyaf ohonynt brosesu geiriau yn effeithiol a chreu lluniau yn llwyddiannus. Maent yn creu graffiau ac yn defnyddio pecynnau TGCh gyda hyder cynyddol i gyflwyno eu gwaith at wahanol ddibenion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'r rhyngrwyd yn bwrpasol i chwilio am wybodaeth. Mae llawer ohonynt yn datblygu dealltwriaeth dda o sut i ddefnyddio taenlenni i archwilio patrymau a pherthnasoedd, er enghraifft wrth gyfrifo arian bwyd yn yr ysgol dros gyfnod. Mae disgyblion hŷn yn chwilio am wybodaeth yn hyfedr. Maent yn creu a chasglu gwybodaeth o gronfeydd data yn hyderus, er enghraifft pan fyddant yn mewnbynnu gwybodaeth a data yn dilyn taith i Fae Bracelet.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos lefelau uchel o barch a phryder am bobl eraill. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn dda iawn yn gyson. Maent yn gefnogol iawn i'w gilydd; er enghraifft, mae'r ffrindiau maes chwarae yn gofalu am y plant iau yn ystod amseroedd egwyl. Maent yn cefnogi elusennau amrywiol ac yn cyfrannu at amrywiaeth o weithgareddau yn y gymuned yn dda, fel casglu cynnyrch ar gyfer Banc Bwyd Abertawe. Trwy gysylltiadau ag ysgol yn Sambia, maent yn caffael gwybodaeth a dealltwriaeth addas o anghenion disgyblion mewn gwledydd eraill. Mae ethos gofalgar a chynhwysol yr ysgol yn helpu disgyblion i deimlo'n ddiogel a saff, ac maent yn gwybod at bwy i droi am gyngor a chymorth pan fyddant yn poeni am rywbeth. Mae ymwybyddiaeth disgyblion o ddiogelwch ar y ffordd yn arbennig o dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos pwysigrwydd aros yn ddiogel ar y rhyngrwyd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith. Mae bron pob un ohonynt yn ymdawelu'n gyflym ar ddechrau gwersi, ac yn gweithio'n bwrpasol wrth iddynt ymgymryd â thasgau yn unigol, mewn parau neu mewn grwpiau. Maent yn dal ati i ganolbwyntio am gyfnodau hir ac yn ymgysylltu'n

dda trwy gydol eu gweithgareddau dysgu. Maent yn gwrando'n ofalus a gyda diddordeb ar awgrymiadau disgyblion eraill. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ethos dysgu effeithiol yn yr ysgol, ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos chwilfrydedd ymgysylltiol yn ystod eu gwersi. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn archwilio a defnyddio ystod o elfennau yn frwd wrth greu cylchedau trydanol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio gwahanol strategaethau yn dda er mwyn llwyddo.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach i'w cadw eu hunain yn heini. Maent yn trafod bwyd iach yn hyderus ac yn ymwybodol o bwysigrwydd diet cytbwys. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau chwaraeon mewn gwersi a thrwy ystod eang o glybiau allgyrsiol, fel ioga a gymnasteg.

Ar draws yr ysgol, mae gan ddisgyblion ystod gynyddol o gyfrifoldebau, ac maent yn teimlo eu bod yn dechrau cael llais yn yr ysgol. Er enghraifft, mae grwpiau llais y disgybl, ffrindiau maes chwarae a helpwyr heddiw, yn gwneud cyfraniadau cadarn at fywyd a gwaith yr ysgol. Ym mis Medi 2018, cyflwynodd yr ysgol Senedd Ystumllwynarth, sy'n rhoi ystod gynyddol o gyfrifoldebau i ddisgyblion. Fodd bynnag, nid oes gan ddisgyblion lais sylweddol o ran cyfrannu at beth maent yn ei ddysgu, a sut.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesegol. Er enghraifft, mae'r grŵp parchu hawliau, a ffurfiwyd yn ddiweddar, eisoes wedi arwain gwasanaeth ac wedi arddangos posteri o gwmpas yr ysgol i godi ymwybyddiaeth am faterion cyfoes. Mae llawer o ddisgyblion yn deall sut gall eu dewisiadau personol gael effaith ar yr amgylchedd. Mae llawer ohonynt yn deall pwysigrwydd cynaliadwyedd ac yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o fentrau eco, er enghraifft ailgylchu a gwneud a gwerthu eu cynhyrchion bwyd masnach deg eu hunain ym marchnad Abertawe.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd mynd i'r ysgol yn rheolaidd. Maent yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r arddangosfeydd gweledol a'r cystadlaethau amrywiol i annog lefelau uwch o bresenoldeb.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth addas o strategaethau i ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu. Maent yn cynllunio'n ofalus ac yn darparu llawer o gyfleoedd ysgogol i ddisgyblion gydweithio, er enghraifft ar destunau fel y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae perthnasoedd gweithio cryf yn bodoli rhwng staff a disgyblion. Mae athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn yr ystafell ddosbarth yn dda, ac yn sicrhau bod disgyblion yn barod i ddysgu ar ddechrau gwersi. Mae llawer o athrawon yn gofyn cwestiynau treiddgar ac yn hyrwyddo medrau meddwl disgyblion yn dda. Mae llawer o athrawon yn sicrhau bod gwersi'n symud ar gyflymdra priodol i ddisgyblion. Mae cynorthwywyr addysgu yn gweithio'n bwrpasol mewn partneriaeth ag athrawon i wella dysgu disgyblion.

Ar draws yr ysgol, mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn cysylltu eu gwersi'n dda â dysgu blaenorol y disgyblion. Mae mwyafrif yr athrawon yn rhoi adborth llafar effeithiol i ddisgyblion, sy'n eu hannog i weithio'n galed a dyfalbarhau.

Fodd bynnag, mae ansawdd adborth ysgrifenedig yn llai cyson, ac o ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith ysgrifenedig.  Megis dechrau datblygu y mae'r defnydd o hunanasesu ac asesu cyfoedion gan ddisgyblion.

Mae cynlluniau athrawon yn ymgorffori'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol yn llwyddiannus.  Mae cynlluniau gwaith yr ysgol yn sicrhau ehangder gweithgareddau sy'n datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion yn effeithiol trwy waith thematig mewn amrywiaeth o feysydd cwricwlaidd.  Mae'r cwricwlwm yn bodloni gofynion statudol ac yn darparu fframwaith gwerthfawr ar gyfer dysgu disgyblion.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu eu medrau.  Mae llawer o athrawon yn y cyfnod sylfaen yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut mae plant ifanc yn dysgu, ac maent yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol dan do ac yn yr awyr agored.  Yn gyffredinol, ceir cydbwysedd cadarn rhwng tasgau wedi'u harwain gan y plentyn, a thasgau dan gyfarwyddyd yr athro.  Fodd bynnag, yn y ddau gyfnod allweddol, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu a gwneud dewisiadau am beth maent yn ei ddysgu, a sut.

Mae staff yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn llwyddiannus gydag ystod eang o ymweliadau sy'n ymwneud â gwaith yr ysgol, a thrwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol, fel cwmnïau theatr, busnesau lleol ac aelodau o'r gymuned leol sy'n siarad am eu profiadau adeg y rhyfel.

Mae mwyafrif y staff yn defnyddio'r Gymraeg yn briodol yn eu dosbarthiadau.  Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw athrawon yn creu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu Cymraeg y tu hwnt i wersi Cymraeg dynodedig ac yn ystod y diwrnod ysgol.  Mae'r ysgol yn rhoi llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am eu hardal ac am ddiwylliant Cymru.  Er enghraifft, maent yn ymweld â llawer o leoedd o ddiddordeb, fel Amgueddfa'r Glannau ac Oriel Gelf Glynn Vivian yn Abertawe.  Mae dosbarthiadau cyfnod allweddol 2 yn ymweld â Phrifysgol Abertawe ar gyfer darlithoedd gwyddoniaeth, Castell Henllys, Amgueddfa Lofaol Big Pit a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.  Mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn ymweld â Chanolfan Dreftadaeth Gŵyr ac Amgueddfa Genedlaethol Sain Ffagan.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae gan yr ysgol ethos gofalgar a chynhwysol.  Mae staff yn adnabod disgyblion yn eithriadol o dda, ac yn darparu amgylchedd meithringar sy'n magu hyder a hunan-barch disgyblion.  Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn llwyddo i sicrhau datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion trwy ystod eang o weithgareddau, ymweliadau a digwyddiadau.  Er enghraifft, mae'r ysgol yn hyrwyddo parch a goddefgarwch yn effeithiol trwy wersi cynlluniedig a llawer o ddigwyddiadau elusennol.  Mae ymweliadau rheolaidd gan arweinwyr gwahanol enwadau crefyddol ac aelodau eraill o'r gymuned yn helpu dyfnhau dealltwriaeth disgyblion o faterion ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus.  Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad diwylliannol

disgyblion yn dda trwy weithgareddau celf, cerddoriaeth a drama. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cymryd rhan yng Ngwobr Treftadaeth Cymru a rhoddir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ymweld â'r oriel gelf yn Abertawe a phrofi gwaith cwmnïau theatr amrywiol.

Ceir gweithdrefnau trylwyr i olrhain cynnydd disgyblion, ac mae athrawon yn nodi anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn gynnar. Defnyddiant y wybodaeth yn dda i helpu'r disgyblion hynny y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae ystod bwrpasol o raglenni a strategaethau ymyrraeth yn galluogi disgyblion ag anghenion ychwanegol i wneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae targedau addysg unigol ar gyfer disgyblion a nodwyd yn benodol a mesuradwy. Mae gan ddisgyblion a rhieni ran bwysig yn y broses i adolygu a gosod targedau dysgu priodol. Mae pob un o'r staff wedi ymgymryd â hyfforddiant i ymdrin â disgyblion ag awtistiaeth. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn integreiddio'n dda ym mywyd yr ysgol.

Mewn cyfnod byr, mae'r pennaeth dros dro wedi sefydlu perthnasoedd gweithio cryf gyda rhieni. O ganlyniad, mae rhieni ac aelodau o'r gymuned yn teimlo eu bod yn rhan bwysig o'r ysgol, ac yn ei chefnogi'n frwdfrydig. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi helpu paentio rhannau amrywiol o'r ysgol. Mae rhieni a neiniau a theidiau yn cymryd rhan mewn sesiynau darllen dan arweiniad yn Gymraeg ac yn Saesneg, y Clwb Garddio a phrosiectau darllen i deuluoedd. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn trefnu llawer o ddigwyddiadau llwyddiannus i godi arian. Mae'r rhain wedi helpu'r ysgol i wella'i hadnoddau, er enghraifft trwy brynu meinciau cyfeillion yn yr awyr agored.

Mae'r ysgol yn rhoi llawer o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddysgu am fwyta ac yfed yn iach. Mae testunau amrywiol, gwersi addysg gorfforol a gweithgareddau allgyrsiol yn sicrhau bod disgyblion yn deall pwysigrwydd ymarfer corff. Mae ystod addas o fentrau i annog disgyblion i ddysgu am gadw eu hunain yn ddiogel, er enghraifft y gweithgareddau ymwybyddiaeth diogelwch ar y ffordd.

Mae disgyblion yn elwa ar lawer o weithgareddau gwerth chweil sy'n ehangu eu profiadau. Er enghraifft, mae'r pwyslais cryf ar ddigwyddiadau menter, sesiynau dysgu i deuluoedd, a phrosiect 'Gwyddonydd Gwallgof' ('Mad Scientist') yn cyfrannu at ddealltwriaeth disgyblion o fyd gwaith a chyfleoedd ar gyfer gyrfa yn y dyfodol. Mae clybiau allgyrsiol, fel Ffrangeg, garddio, mathemateg, tennis, côr yr ysgol a chlwb ffilmiau Blwyddyn 6, yn cyfrannu'n dda at brofiadau dysgu disgyblion, ac mae cyfleoedd i ddisgyblion gystadlu mewn gweithgareddau lleol a chenedlaethol amrywiol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant

Mae gan y pennaeth dros dro weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, y mae'n ei chyfleu yn dda. Mae'n arwain trwy esiampl ac yn cael cymorth cryf gan staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Mae hi wedi ymrwymo i yrru gwelliannau yn eu blaen yn yr ysgol. Er enghraifft, mae hi wedi sicrhau bod cyfleoedd pwrpasol i staff a llywodraethwyr edrych ar lyfrau disgyblion er mwyn nodi cryfderau ac agweddau y mae angen eu gwella. Mae hi wedi sicrhau bod polisïau yn gyfoes a bod staff a llywodraethwyr yn eu hadolygu mewn rhaglen dreigl.

Mae gan staff rolau a chyfrifoldebau arwain sy'n gweddu i'w cryfderau, eu harbenigedd a'u diddordebau. Fodd bynnag, newydd ddechrau yn eu rôl y mae llawer o arweinwyr ar bob lefel. Ar wahân i ddau uwch arweinydd, mae'r gweddill ohonynt wedi cael hyfforddiant cyfyngedig ar gyfer arweinyddiaeth, a chyfleoedd prin i fonitro neu werthuso safonau ac ansawdd y ddarpariaeth yn eu maes cyfrifoldeb. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfraniad y gallant ei wneud i hunanwerthusiad yr ysgol, a'u heffaith ar wella'r ysgol. Mae uwch arweinwyr wedi nodi meysydd i'w gwella yn gywir, fel y Gymraeg ac ansawdd adborth ysgrifenedig athrawon i ddisgyblion. Fodd bynnag, argymhellion ar ôl yr arolygiad blaenorol oedd y rhain, ac nid arweiniodd y camau gwella a gymerwyd ar yr adeg honno at welliant digonol a chynaledig. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth newydd wedi rhoi cynlluniau priodol ar waith ar gyfer gwella, ond ychydig iawn o amser y maent wedi'i gael i greu effaith sylweddol.

Mae gan y corff llywodraethol strwythur sefydledig ac effeithiol ar gyfer rheoli ei gyfrifoldebau. Mae llywodraethwyr yn ymweld â dosbarthiadau bob mis yn unol ag amserlen a sefydlwyd yn ddiweddar. Mae hyn yn dechrau hysbysu llywodraethwyr yn briodol am safonau a lles disgyblion. Mae llywodraethwyr wedi rheoli cyfnod hir o ansicrwydd mewn arweinyddiaeth yn dda. Maent yn ymroddgar a chefnogol iawn i'r ysgol. Maent yn herio'r ysgol yn effeithiol, er enghraifft trwy sicrhau bod y swyddog cyllid yn creu nifer o opsiynau wrth wneud penderfyniadau am staffio. Mae rheolaethau ariannol effeithiol yn cadw cyllid ar y llwybr cywir ac mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol yn briodol.

Mae arweinwyr yn annog staff i gymryd rhan mewn dysgu proffesiynol pwrpasol. Er enghraifft, mae pob un o'r staff wedi ymgymryd â hyfforddiant i ymdrin â disgyblion ag awtistiaeth. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn integreiddio'n dda ym mywyd yr ysgol. Ar draws yr ysgol, mae staff yn dysgu oddi wrth ei gilydd ac yn agored i newid. Er enghraifft, mae'r pennaeth dros dro wedi hyfforddi staff ar sut i gynnal prosiectau menter. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer rheoli perfformiad staff wedi cysylltu'n ddigon da yn y gorffennol â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae targedau staff presennol yn cysylltu'n well â blaenoriaethau gwella'r ysgol, ond ychydig iawn o amser y maent wedi'i gael i greu effaith ar wella safonau ac ansawdd y ddarpariaeth.

Mae nifer y staff ac adnoddau dysgu yn ddigonol i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r ysgol yn defnyddio'i hamgylchedd dan do ac awyr agored yn dda, gan wneud defnydd arbennig o dda o'r ardaloedd coediog cyfagos. Mae'n anodd rheoli'r arfer o ddisgyblion yn symud yn rhydd rhwng y tu mewn a'r tu allan ar gyfer y cyfnod sylfaen, ond mae staff yn gweithio'n galed i sicrhau bod disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'r naill ardal a'r llall yn ystod y diwrnod ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn briodol i wella dysgu cyfran fach o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/03/2019